

Cân agoriadol

Ma bywyd wedi mynd yn boen
Arglwydd Penrhyn sydd yn boen
Does dim diwedd ar y streic

Blwyddyn o gloi allan sydd
Ynndo fo does gen i'm ffydd
a ddaw diwedd ar y streic?

Bradwyr wedi ildio'r dydd
Brwydrwn ni am hawliau rhydd
tra bo gobaith – mlaen a'r streic

Chwarel Penrhyn – llechi gwych
Chwarel Penrhyn – gweithwyr gwych
Piti am y Lord a'i was

Gyda'n gilydd safwn ni
Ac mewn undod credwn ni
Nid oes bradwr yn y ty hwn.

Streic – gyda'n gilydd safwn ni
Streic – ac mewn undod credwn ni
Streic – brwydrwn ni am hawliau rhydd
streic – ac enillwn ni y dydd.
Streic.

Cân Lord Penrhyn

Ma'r byd ma'n llawn o bobl ddrwg
ond neb mor ddrwg a fi
Dwi'n ymhyfrydu yn y ffaith
dwi'n waeth na'r KGB
Pan on i yn yr ysgol fach
fi odd boss y bois
a nawr myfi di'r boss go iawn
does ganddoch chi ddim llais

pwy sy'n lordio'ch chwarel chi?
Arglwydd P
Pwy sy'n berchen arnoch chi?
Arglwydd Penrhyn
Pwy sy'n gwbod be di'r sgor?
Arglwydd Penrhyn
Pwy di'r bos ar dir a mor?
Arglwydd P

Ma'r gweithwyr diog wedi mynd
Di codi pac – mor ffôl!
Ond siwr i chi fe ddaw y dydd
Fe ddaw y ffyliaid nôl
Does gen i'm mynadd efo nhw
nac Undeb a'u hen lol
Mae'n bryd i'r lord gal deud ei ddeud
Dwi wedi cal llond bol!

I'r gad

Ma'r gweithwyr wedi gwylltio
a'r bradwyr sydd ar fai
Yn ildio i'r perchnogion
ein parch at hwy sydd lai
ein parch at hwy sydd lai

aeth pedwar cant o ddynion
yn ôl yn llwfr i'r gwaith
a sofren yw y wobr
nid dyma ben ein taith
nid dyma ben ein taith

I'r gad i'r gad
dewch weithwyr hen ac ifanc
dewch i'r gad
I'r gad i'r gad
dewch weithwyr hen ac ifanc
dewch i'r gad i'r gad

fe safwn dros ein hawliau
dyfodol sydd mor frau
cenhedlaeth wedi siomi
derbyniwn ni ddim llai
derbyniwn ni ddim llai

Pan fo hi'n ddiwrnod braf

Pan fo hi'n ddiwrnod braf, fe fyddai'n
wen i gyd
Mi ganaf gân i'm gwneud yn hapus
Pan fo hi'n ddiwrnod braf.

Pan fo hi'n wyntog iawn, fe chwyth
ngofalon i ffwrdd
troi rownd a rownd i'm gwneud yn
hapus
pan fo hi'n wyntog iawn.

Ond gwn beth bynnag fo'r tywydd
gallwn wneud y gorau o'r dydd
bydd pawb, pawb yn un cwmni
felly beth yw'r ots ni fyddwn byth yn
brudd.

Pan fo hen niwl yn drwch ni fydd fy
wyneb yn hir
fe fydd na ffordd i'm gwneud yn hapus
pan fo hen niwl yn drwch.

Pan fo hi'n bwrw glaw, mae'n siwr o
neud coeliwch fi!
mi sblashiaf ddwr i'm gwneud yn
hapus
pan fo hi'n bwrw glaw.

Ond gwn beth bynnag fo'r tywydd
gallwn wneud y gorau o'r dydd
bydd pawb, pawb yn un cwmni
felly beth yw'r ots ni fyddwn byth yn
brudd.

Pan fo hi'n ddiwrnod braf, fe fyddai'n
wen i gyd
Mi ganaf gân i'm gwneud yn hapus
Pan fo hi'n ddiwrnod braf.

Mae'n wlad i mi

Cytgan: Mae'n wlad i mi ac mae'n
wlad i tithau,
O gopa'r Wyddfa i lawr i'w thraethau,
O'r De i'r Gogledd, o Fôn i Fynwy,
Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi.
1. Mi fum yn crwydro hyd lwybrau
unig, ar foelydd meithion yr hen
Arenig,
A chlywn yr awel yn dweud yn dawel,
"Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi."

(Cytgan)

2. Mi welais ddyfroedd Dyfyrdwy'n
loetran,
Wrth droed yr Aran ar noson loergan,
A'r tonnau'n sisial ar lan Llyn Tegid,
"Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi."

(Cytgan)

3. Mae tywod euraidd ar draeth
Llangrannog
A'r môr yn wyrddlas ym mae
Llanbedrog:
O dan yr eigion mae clychau'n canu,
"Mae'r wlad hon yn eiddo i ti a mi."

Byd o freuddwyd

Annwyl Santa – dwi'n gwbod fod pawb
isho anrheg
y Dolig hwn
ond Santa – pan gei di'r llythyr ma fory
paid synnu achos leni
Wel Santa ddeudai be dio
di pawb ddim yn gofyn am beth mor od
a hyn
O Santa plis gai ddolig
a dathlu gyda'r pentre yn fan hyn.

Pan ddaw'r twyllwch a'r lloer a'r ser i
wenu
dros ddol a bryn
daw duwch fel cwrlid drwy'r goleuni
bryd hynny caf ddiflannu
yn gysglyd af i ngwynfyd

ffarwelio a heddiw nes iddo droi yn
ddoe
caf orffwys yma'n gynnes
a byw mewn byd o freuddwyd tan y
wawr.

Caf fyn nghludo ar gwmwl gwyn o'r
gwely
i fyd o gwsg – breuddwydio
a disgwyl am yfory, tan hynny, caf
ddiflannu
yn gysglyd af i ngwynfyd
ffarwelio a heddiw nes iddo droi yn
ddoe
caf orffwys yma'n gynnes
a byw mewn byd o freuddwyd tan y
wawr.

suddo i drwmgwsg clud
hedfan i arall fyd
aros am huwcyn cwsg a'i dywod hud
i'm tywys gyda hyn

Bwyd digon o fwyd

Bwyd digon o fwyd
bwyd dyna'r dymuniad
llond platiad o fwyd
chips sosej neu salad

Dydw i ddim yn ffysi iawn
hawdd iawn i fy mhlesio
ond gorau oll gen i
tatws a rwdan di stwnshio

Bwyd digon o fwyd
bwyd dyna'r dymuniad
llond platiad o fwyd
chips sosej neu salad

Rhowch damaid o fwyd i mi
sbarion y moch i mi
bwyd digon o fwyd
digon o fwyd plis i mi.

Deffra

deffra deffra dos i hel dy lyfra
amser mynd i'r ysgol
stretsia, neidia, galw mae dy ffrindia
mae diwrnod newydd o'n blaen

wyt ti'n ffit? dawnsia gyda'r bit,
amser mynd i'r ysgol
gwaedda nawr hei, gwelai di'n y man
mae diwrnod newydd o'n blaen.

Mr Puw

Y fi di'r syr pwysica medde nhw
Y fi di'r athro gora ar fy llw
I'll teach you mathematics
You'll learn about semantics
But don't you dare ask me to go to the
loo

Mr Puw Mr Puw – ond i chi mi rydwi'n
Dduw
Mr Puw fe gewch ddysgu sut i fyw
Mr Puw Mr Puw gwyliwch chi – da
iawn di'r clyw
Does na neb yn meiddio herio Mr Puw.

Plwm pwdin

plwm pwdin plwm pwdin
glywsoch chi y si fod na blwmp o
bwdin?
o Loegr o Loegr
glywsoch chi y si fod na blwmp o
bwdin?
i'n bwydo a'n plesio
dyma fydd y gorau –llawer gwell na
Delia
plwm pwdin plwm pwdin i ni

llawn raisins llawn raisins
blawd ar ei ben o ma hwn llawn raisins
a wya a wya
digon o brandy ar ben y wya
troi'r cwbl troi'r cwbl
llwy digon sturdy i droi y cwbl
ingredients ingredients i ni

ei fwyta ei fwyta
digon o sos ar ei ben a'i fwyta
mor flasmus mor flasmus
does na ddim gwell - o ma hwn mor
flasmus
darn arall darn arall
bwyta'r cwbl lot o rhaid stwffio'r cwbl
mae'n Ddolg mae'n Ddolg i ni

methu symud methu symud
bol mor llawn o dwi methu symud
traed fyny traed fyny
sherry yn un llaw ac mae'r traed i fyny
40 winks 40 winks
ista flaen y tan cyn cal 40 winks hei
plwm pwdin plwm pwdin i ni

Wele cawsom ym Methesda

Y pwdin gorau gaed erio'd.
Chlywodd Young nag Arglwydd

Penrhyn
Ddim amdano cyn ei ddod.
Pwddin yw, du ei liw,
Y gorau brofodd neb yn fyw.

Dewch at eich gilydd

Dewch at eich gilydd
Dewch at eich gilydd
Dewch at eich gilydd yn gytun x2

Wrth chwilio am y fflam sy'n cynnau yn
dy galon
A disgwyl diwedd ar y gorthrwm a'r
straen
Paid edrych i'r dyfnderoedd gwag sy
nghefn dy feddwl
Nid wrth dy hunan gei di'r llwybr
ymlaen

Dewch at eich gilydd
Dewch at eich gilydd
Dewch at eich gilydd yn gytun x2

Fe ddaw y dydd pan welwn degwch yn
y chwarel
Cladda'r amheuon a ffarwelia a
chwant
Chwala y muriau llwyd tu ol i ddrws dy
mennydd
Clyw eiriau doeth a ddaw o enau y
plant

Dewch at eich gilydd
Dewch at eich gilydd
Dewch at eich gilydd yn gytun

Dewch at eich gilydd
Dewch at eich gilydd
Dewch at eich gilydd yn gytun x 3

Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun
Wrth ymyl fy ngwely i
Bob bore a nos mae gweddi'n un dlos
Mi wn er na chlywaf hi.

Cân y Nadolig

Mae'r Nadolig ar y gorwel mae'n
amser dathlu'r wyl
Ymunwch yn y gan a'r hwyl
Addurniadau yn y cartref y goeden
eto'n hardd
Dyn eira'n gwenu yn yr ardd

Canwn am ramant y Nadolig

Canwn am wyl yr hud
Cariad drwy'r byd a phawb yn ffrindiau
Canwn am wyl, canwn am wyl canwn
am wyl yr hud.

Pwdin Dolig mor ryfeddol a ddaeth o
Loegr bell
Mae'n ddowt gen i os fu un gwell
Gyda'n gilydd dathlwn eto – i'r
gweithwyr fo y clod
Hwre - mae'r Dolig wedi dod